**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2007**

## YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD 2008-09

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub i argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2008-09 ac ymateb yr Awdurdod i sylwadau dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Cyflwyniad

**2.** Fe gymeradwyodd aelodau Gynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2008/09 am ymgynghoriad ar 18fed Mehefin 2007.

**3.** Yn unol â'r canllaw gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ymgymerwyd â phroses 12 wythnos gynhwysfawr o ymgynghoriad, a derbyniwyd ymatebion hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cau o 7fed Medi 2007.

## Gwybodaeth

**4.** Anfonwyd dogfen ymgynghori lliw i 918 o unigolion a sefydliadau allanol ar ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf, mewn 34 categori ymgynghori gwahanol. Dosbarthwyd 69 o gopïau ychwanegol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Môn, Sioe Meirionydd a Sioe Dinbych a Fflint.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**5.** Anfonwyd llythyrau eglurhaol i Aelodau o'r Cynulliad, Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd Ewropeaidd oedd yn cynnwys gwahoddiad agored i drafod y cynigion mewn mwy o fanylder os y dymunent.

**6.** Dosbarthwyd 450 o gopïau i staff yn holl leoliadau'r Gwasanaeth, yn ogystal â'r rhai hynny sydd ar secondiad, salwch tymor hir, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb arall. Cyhoeddwyd negeseuon i staff drwy gyfathrebiadau mewnol i'w hysbysu o'r ymgynghoriad ac i annog cyfranogaeth.

**7.** Trosglwyddwyd rhaglen o ymweliadau personol i'r holl wylfeydd yn y tair gorsaf dân shifft 24 awr ac yn y pump gorsaf dân criw dydd gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau), i roi cyfle i bersonél drafod y cynigion, ac i'w annog hwy i gyflwyno eu hymatebion ysgrifenedig. Fe barhaodd y rhaglen arferol o ymweliadau gorsaf y Prif Swyddogion yn ystod y cyfnod hwn.

**8.** Rhoddwyd cyflwyniadau i staff a chynrychiolwyr staff ar sut fyddai system restru newydd yn cael ei ffurfweddu, a sut allai'r math yma o ail ffurfweddu ryddhau adnoddau, gan gwmni allanol a'r Prif Swyddogion.

**9.** Roedd fersiwn electronig ar gael ar wefan yr Awdurdod o 19eg Mehefin ymlaen.

**10.** Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion, gyda 52 ohonynt yn cyrraedd yn ystod wythnos olaf yr ymgynghoriad. Ni dderbyniwyd ymatebion gan aelodau o staff yr Ystafell Reoli na Staff Chefnogi, ond roedd oddeutu 61% o'r ymatebion wedi eu derbyn gan staff. Roedd y ffaith nad oedd rhai o'r ymatebion electroneg yn datguddio manylion llawn y person oedd yn ymateb yn golygu nad yw dadansoddiad manwl gywir yn bosib. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, fe gyflwynodd Undeb y Brigadau Tân ymateb ysgrifenedig.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**11.** Mewn cyferbyniad i'r llynedd, nid oedd y mwyafrif o ymatebion dderbyniwyd eleni yn gefnogol o'r cynigion yn y ffurf y cawsant eu cyflwyno yn y ddogfen ymgynghorol. Roedd nifer ohonynt yn siomedig nad oedd costau manwl a chynlluniau gweithredu llawn wedi eu datblygu a'u cynnwys yn y cam ymgynghorol.

**12.** Roedd geiriad yr ymatebion unai yr un fath neu'n debyg iawn mewn nifer o ymatebion, yn awgrymu fod peth ymgyrchu neu rannu ymatebion wedi digwydd.

**13.** Roedd pryderon gan staff am sut allai'r cynigion effeithio eu bywyd personol gartref a'u bywyd gwaith, ac roedd nifer yn awgrymu, er eu bod yn cytuno fod gwaith atal yn bwysig iawn, y dymunent weld hyn yn cael ei ariannu drwy unai gynnydd yn y gyllideb neu drwy ryddhau effeithlonrwydd o unrhyw ran o'r gwasanaeth ond am lle allai effeithio diffoddwyr tân ar orsafoedd tân. Roedd y pwynt fod yr adolygiad rhestru yn berthnasol i staff ar y gorsafoedd tân shifft 24 awr a chriw dydd (8 allan o 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru) yn unig ond nid i orsafoedd tân rhan amser wedi ei fethu.

**14.** Roedd pob ymateb wedi cael ei ddarllen a'i ddadansoddi, ac fe gyflwynir detholiad o unai sylwadau unigol neu rai sy'n cynrychioli nifer o sylwadau tebyg a dderbyniwyd yn yr atodiad. Mae'r ymatebion drafft i'r materion godwyd fel y'i cymeradwywyd gan y Panel Gweithredol ar 24ain Medi 2007.

**Argymhellion**

**15.** Fod Aelodau:

**15.i.** yn nodi'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Gynllun Gweithredu drafft 2008-09 y Cynllun Lleihau Risg;

**Argymhellion** *(parhad)*

**15.ii.** yn cadarnhau bwriad yr Awdurdod i barhau gyda'r cynlluniau ddangosir yng Nghynigion 1, 2 a 4 o'r Cynllun Gweithredu drafft 2008-09 y Cynllun Lleihau Risg;

**15.iii.** cytuno i ohirio penderfyniad ar y cynlluniau ddangosir yng Nghynnig 3(a) yr Adolygiad Rhestru, a 3(b) yr Opsiwn Ymateb Ymroddedig o Gynllun Gweithredu drafft 2008-09 y Cynllun Lleihau Risg, er mwyn caniatáu amser i'r Gweithgor Lleihau Risg i ymgymryd â gwaith manwl ychwanegol i asesu goblygiadau llawn y cynlluniau yma, a chyflwyno ei argymhelliad i'r Panel Gweithredol ar gyfer cadarnhad gan yr Awdurdod llawn;

**15.iv.** cytuno ar eiriad terfynol ei ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig gyflwynwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â hwy ar Gynllun Gweithredu drafft 2008-09 y Cynllun Lleihau Risg.